DREF WEN ///// STORÏAU HANES CYMRU

CA

1

# HEDD WYN A'R GADAIR DDU

John Evans





Roedd Ellis Evans
yn byw ar fferm
ym mynyddoedd Gogledd Cymru,
tua chan mlynedd yn ôl.



Roedd yn helpu ei dad
trwy ofalu am y defaid.
Ond doedd o ddim yn hoffi ffermio.



Roedd Ellis
yn hoffi'r mynyddoedd,
ac roedd o'n hoffi ysgrifennu cerddi.
Drwy'r dydd, byddai'n meddwl am
y cerddi roedd o am eu hysgrifennu.





Enillodd Ellis lawer o wobrau
am ei gerddi
mewn eisteddfodau.
Roedd ei deulu'n falch iawn ohono.



Rhoddodd y beirdd eraill
enw barddol iddo,
sef "Hedd Wyn". O hynny allan,
doedd neb yn ei alw'n Ellis,
dim ond Hedd Wyn.



Yr eisteddfod fwyaf un oedd
yr Eisteddfod Genedlaethol.
Byddai beirdd o bob cwr o Gymru
yn ceisio ennill y brif wobr —
y Gadair gerfiedig, hardd.



Penderfynodd Hedd Wyn
ei fod ef am ennill y Gadair.



Daeth newydd bod angen milwyr
i ymladd yn y Rhyfel Mawr
dros y môr. Roedd yn rhaid
i Bob, brawd Hedd Wyn,
fynd i ymladd.



Meddai Hedd Wyn,
“Mae Bob yn well ffermwr na fi.
Rhaid iddo fo aros gartre.
Mi af i i’r rhyfel yn ei le.”



Aeth Hedd Wyn yn filwr ym 1916.
Roedd yn gwisgo het ddur
ac yn cario gwn.
Roedd yn gas ganddo fod yn filwr.



Cafodd llawer o'i ffrindiau gorau
eu lladd yn y rhyfel.
Roedd o am fynd adre,
ond roedd rhaid iddo
aros ac ymladd.



Er mai milwr oedd o,
roedd Hedd Wyn yn dal i feddwl
am ennill y Gadair yn yr
Eisteddfod Genedlaethol.



Ar bob cyfle,
byddai'n gweithio ar ei gerdd.
Roedd yn siŵr
y byddai'n ennill y wobr.



Gorffennodd y gerdd
ychydig cyn gorfod mynd
i ymladd yn erbyn y gelyn.



Rhoddodd y gerdd mewn amlen
a'i hanfon yn ôl i Gymru.
Yna i ffwrdd ag ef i'r frwydr.



Daeth amser yr Eisteddfod.
Roedd yn bryd cyhoeddi
pwy oedd wedi ennill y Gadair.
Roedd yr Eisteddfod
yn llawn pobl a chyffro.



Cafodd enw Hedd Wyn ei alw —
ef oedd wedi ennill.
Edrychodd pawb o'u cwmpas.
Ble roedd y bardd?



Yna cawson nhw wybod
bod Hedd Wyn wedi'i ladd
wrth ymladd yn y rhyfel.
Roedd pawb yn eu dagrau.



Cafodd lliain du ei roi
dros y Gadair
i ddangos bod Hedd Wyn
wedi marw.



Aeth ei ffrindiau â'r "Gadair Ddu"
yn ôl i gartref Hedd Wyn,
ym mynyddoedd
Gogledd Cymru.



Mae hi i'w gweld hyd heddiw
yn y ffermdy bach
lle ysgrifennodd Hedd Wyn
lawer o'i gerddi.

# MYNEGAI


bardd 7, 8, 19
Bob 10, 11
brwydr 17

Cadair 8, 9, 14, 18, 21
cerdd 4, 6, 15, 16, 17, 23
Cymru 2, 8, 17, 22

defaid 3

eisteddfod 6, 8
Eisteddfod Genedlaethol 8, 14, 18-21
Ellis 2, 4, 6, 7
enw barddol 7

fferm 2, 3, 11, 23

gwn 12
gwobr 6, 8, 15

"Hedd Wyn" 7
het ddur 12

lliain du 21

milwr 10, 12, 14
mynyddoedd 2, 4, 22

Rhyfel Mawr 10

"Y Gadair Ddu" 21, 22



© Awdurdod Cwricwlwm ac Asesu Cymru 1996. Mae hawlfraint ar y deunyddiau hyn ac ni ellir eu hatgynhyrchu na'u cyhoeddi heb ganiatâd perchennog yr hawlfraint. Mae John Evans a Jon Davis wedi datgan eu hawl i gael eu hadnabod y naill fel awdur a'r llall fel arlunydd y gwaith hwn yn unol â Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988. Cyhoeddwyd 1996 gan Wasg y Dref Wen, 28 Ffordd yr Eglwys, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2EA. Ffôn 01222 617860. Argraffwyd yn Hong Kong. Cedwir pob hawlfraint.


Dyluniad clawr gan Elgan Davies. Llun clawr cefn: Cadeiriau, trwy ganiatâd *Barddas*.